**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**10 Mehefin 2024**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

- Mr Jason Chinrey – ymgeisydd
- Elizabeth Williams – Heddlu Gogledd Cymru

**Ymddiheuriadau:**

Moira Duell Pari – Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** | 10 Mehefin 2024 |

---

**PWNC:** Cais am drwyded eiddo **The Vaults, 334 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YA**

---

**PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar addasu oriau gwerthiant alcohol.**

**Oriau Diwygiedig Cyflenwi Alcohol – Ar yr eiddo yn unig**
**10:00 – 00:00 Dydd Sul i Ddydd Iau**
**10:00 – 02:00 Dydd Gwener i Ddydd Sadwrn**

**Amodau:**

- **Bydd amseroedd ansafonol yn parhau fel y maent ar gyfer penwythnosau Gŵyl y Banc, gyda chaniatâd ychwanegol i alluogi hyd at ddeg digwyddiad bob blwyddyn (Sul i Iau) lle caiff yr eiddo weithredu hyd at 02:00 gyda gwybodaeth a chytundeb ymlaen llaw gan yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu**
- **Cynnwys amodau TCC arfaethedig**
- **Cyflogi staff drysau sy'n gofrestredig â'r SIA o 21:00 ymlaen ar adegau lle mae'r eiddo yn agored ar gyfer busnes yn hwyrach na 23:00 (nos Wener a nos Sadwrn)**
- **Deilydd y drwydded i gynnal asesiad risg i weld os oes angen Goruchwylwyr Drysau ar yr eiddo ac i gyflogi Goruchwylwyr Drysau, sy'n gofrestredig â'r SIA, os bydd angen hynny**
- **Cynnwys mesurau er dibenion rheoli sŵn**
- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

O blaid: 3
Yn erbyn: 0
Atal: 0

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---